# Gwybodaeth i Rieni
# 2024-25




YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA

Dysgu Gorau - Dysgu Byw

# SUT I GYSYLLTU Â'R YSGOL:

**Prif swyddfa:** 01639842129
e-bost: YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

**Cyd-lynydd Blwyddyn 7:**
Mr Geraint Jones
e-bost: JonesG1155@hwbcymru.net

**Pennaeth Cynorthwyol** (Cyfrifoldeb Trosglwyddo CA2 – CA3):
Mrs Angharad Lloyd
e-bost: LloydA183@hwbcymru.net

**Pennaeth**
Mrs Laurel Davies
e-bost: DaviesL1404@hwbcymru.net

**CROESO I YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA. EDRYCHWN YMLAEN AT WEITHIO'N AGOS GYDA CHI DROS Y BLYNYDDOEDD NESAF.**



# CEFNOGAETH I FLWYDDYN 7

- Pan ddaw'ch plentyn i Ysgol Gymraeg Ystalyfera, fe fydd gofal a chefnogaeth gref mewn amryw o ffyrdd :
- Tiwtor Dosbarth a fydd yn cynnig pob cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol o'r newydd ac a fydd yn Diwtor hyd at Flwyddyn 11.
- Cydlynydd Blwyddyn a Staff Hŷn a fydd bob amser ar gael i drafod gyda rhieni.
- 'Bydi' ym Mlwyddyn 12 a fydd yn barod i helpu a chyfeirio, gofalu a chyfarwyddo. Mae pob plentyn yn cyfarfod a'i 'fydi' yn wythnosol o leiaf.
- Mentoriaid Cymar: Clybiau Gwaith Cartref a Chlybiau Adolygu Gwaith.
- Clybiau pynciol – e.e. Mathemateg. Sesiynau Mentora ar gyfer Llwyddiant.
- Cefnogaeth Llythrennedd a/neu Rhifedd.
- Noson i Rieni yn gynnar yn ystod y tymor cyntaf i drafod ymgartrefu ac unrhyw gefnogaeth neu sylw i faterion penodol sydd angen.
- Athrawon yn anelu at addysgu drwy ddefnyddio arddulliau dysgu'r disgyblion.
- Gosod targedau SMART a thrafodaeth bob hanner tymor gyda'r Tiwtor Dosbarth ar gynnydd tuag at y targedau.
- Cwrs Sefydlu i Flwyddyn 7 yn ystod diwrnodau cynta'r flwyddyn. Anogaeth i ymuno â gweithgareddau allgyrsiol penodol i Flwyddyn 7 e.e. Côr Blwyddyn 7, Twrnament Rygbi a Phêl-rwyd Blwyddyn 7.
- Cynlluniau Clod a Gwobrwyo er mwyn codi cymhelliant a hybu cyrhaeddiad.

# CWRICWLWM BLWYDDYN 7 2024-25

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur wedi gweithredu fel Ysgol Arloesi'r Cwricwlwm gyda Llywodraeth Cymru gan arwain ar y gwaith o baratoi'r ffordd i bob Ysgol arall gyda'n cwricwlwm arloesol a chyffrous. Mae'n bleser mawr gennym rannu'r ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn 7 Medi 2024 ac fel Ysgol rydym yn falch iawn o'r hyn rydym yn cynnig ar gyfer ein pobl ifanc. Mae ein 'cwricwlwm' yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau cyfoethogi a gynlluniwyd er mwyn cyflawni Pedwar Diben y cwricwlwm, sef datblygu ein plant a'n pobl ifanc fel:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rydym yn benderfynol o ddarparu continiwwm dysgu sydd yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn adeiladu ar y cryfderau a'r seiliau a osodwyd gan ein partneriaid ardderchog yn yr ysgolion cynradd. Trwy fenthyg a datblygu sgiliau a strategaethau addysgegol y Cyfnod Sylfaen a CA2 ac ychwanegu arbenigedd pynciol athrawon CA3 ac uwch, gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau'r sylfeini a'r strwythur er mwyn datblygu dysgwyr gydol-oes effeithiol ac yn paratoi ein pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol.



# CYNLLUN CWRICWLWM BLWYDDYN 7

| CWRS | CRYNODEB |
|---|---|
| Dysgu Gorau, Dysgu Byw: DGDB | Cwrs craidd i anwytho disgyblion i'r ysgol, yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau sylfaenol y Pedwar Diben mewn dosbarthiadau bach cofrestru i ddatblygu gallu emosiynol, gwytnwch, sgiliau siarad a gwrando, gwaith annibynnol, cymryd risg a gwerthuso cynnydd. Bydd y cwrs hefyd yn anelu i urddo a gwobrwyo disgyblion ar eu cynnydd / taith a chyfraniad ym Mlwyddyn 7 drwy "urddo" ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Cymraeg | Cwrs craidd sydd yn datblygu'r Gymraeg mewn cyd-destun cyfoes lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Y nod yw i ddatblygu hunaniaeth gref ac annog eu datblygiad ieithyddol i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben. |
| STEM | Cwrs cyffrous sydd yn gyfuniad o wersi Gwyddoniaeth, TGCh, Math a Thechnoleg gan ddatblygu cwrs traws-adrannol newydd o fewn yr ysgol. Bydd y ffocws ar ymchwilio chwilfrydig, damcaniaethu a datblygu sgiliau dysgu rhagorol. Rhoddir ffocws ar ddatblygu egwyddorion y Pedwar Diben a'r disgyblaethau pynciol allweddol o fewn cyd-destun lleol, Cymreig, byd go iawn. |
| Iechyd a Lles | Mae hwn yn gwrs sydd yn datblygu Iechyd a Les mewn modd mwy holistaidd, yn ystyried agweddau ehangach o ran iechyd a datblygiad corfforol a byw'n iach, gan gynnwys pwyslais ar iechyd meddwl, cydbwysedd a pherthnasoedd iach. Mae'r ffocws yn gadarn yma ar ddatblygu unigolion iach ac hyderus ond yn ymateb i egwyddorion pob un o'r pedwar diben. |
| Dyniaethau | Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Rydym wedi cyfuno gwersi'r Dyniaethau i ddatblygu fformat newydd dan law ein harbenigwyr pwnc i gyflwyno profiadau a meysydd arbenigol er mwyn ysbrydoli ein disgyblion i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a chyffrous. |
| Celf Perfformio | Cwrs ardderchog yn rhoi.pwyslais ar gyd-weithio traws adrannol ar thema / allbwn cyffredin. Mae'r ffocws ar gyflwyno / cynnyrch ar ddiwedd y flwyddyn a bydd gwahoddiad i rhieni i ddod mewn i'r ysgol i ddathlu'r creadigrwydd yn nhymor yr Haf. |
| Mathemateg | Mae'r ffocws ar ddatblygu gweithgareddau mathemategol sy'n addysgu'r dysgwyr ac yn herio'r pobl ifanc i beidio a bod ag ofn problemau anghyfarwydd neu gymhleth. Drwy ddatblygu cysylltiad lleol, cyfoes, byd-real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben, bydd y disgyblion yn datblygu gwydnwch, yn ogystal a phrofi ymdeimlad o lwyddiant a mwynhad. |
| Saesneg | Cwricwlwm newydd a chyffrous sydd yn datblygu hunaniaeth, dealltwriaeth a chysylltiad lleol, cyfoes, byd-real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben. |
| D&T | Bydd y cwrs yma yn cyflwyno'r cwricwlwm mewn dull newydd a chyffrous ac yn datblygu sgiliau a disgyblaethau dylunio a thechnoleg, drwy ddatblygu cysylltiad lleol, cyfoes, byd-real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben . |
| ITM | Bwriad y cwrs yw i danio chwilfrydedd a brwdfrydedd y dysgwyr a chynnig sylfaen gadarn iddyn nhw ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd y byd. |



# OFFER

Offer sylfaenol i ddisgyblion Blwyddyn 7 yw set geometreg (cwmpawd cadarn, dau sgwaren, pren mesur 300 mm a phrotractor), pensil, ysgrifbin (inc neu bêl-bwynt), pensiliau lliw.

Cynghorir disgyblion i beidio â dod ag eiddo drud i'r ysgol.

Ni chaniateir peniau ffelt, Tipp-ex (na hylif tebyg), chwaraewyr cerddoriaeth/ dyfeisiau smart na gwm cnoi yn yr ysgol.

Ni chaniateir defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol. Bydd ffonau symudol yn cael eu cymryd gan staff a'u cadw yn y swyddfa tan ddiwedd y dydd.

# APP CLASSCHARTS

Bydd y feddalwedd yn cofnodi cyflawniad, ymroddiad ac ymagwedd eich plentyn at ddysgu. Ar yr App fydd amserlen, gwaith cartref, cyswllt â'r tiwtor personol a gwybodaeth dydd i ddydd mewn amser real.




## TREFN Y DYDD YSGOL

| | |
|---|---|
| 8.40am : | Cofrestru'r bore |
| 9.00am : | Gwers 1 |
| 9.50am : | Gwers 2 |
| 10.40am : | Egwyl |
| 11.00am : | Gwers 3 |
| 11.50am : | Gwers 4 |
| 12.40pm : | Cinio |
| 1.30pm : | Gwers 5 |
| 2.20pm : | Gwers 6 |
| 3.10pm : | Diwedd y dydd |

## ORIAU'R YSGOL

Mae'r ysgol yn gweithredu amserlen pythefnos – 60 gwers 50 munud ac mae'r diwrnod ysgol yn cynnwys amser i gofrestru, cynnal gwasanaethau, amser egwyl ac awr ginio.




# ABSENOLDEB A PHRESENOLDEB

Rhaid egluro pob absenoldeb pa hyd bynnag bo'r cyfnod. Rhaid hysbysu'r ysgol naill ai drwy'r App Class Charts neu neges ffôn erbyn 8yb. Gofynnir i ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr (wedi i'r cyfnod gofrestru gau) fynd i'r Swyddfa, lle cofnodir ei enw.

Cynghorir rhieni yn gryf i beidio â mynd â phlant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.

Adran Cludiant Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**(01639 763333).**



# BYSIAU YSGOL

Trefnir y bysiau yn gyfan-gwbl gan Adran Cludiant Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (01639 763333). Ceir gwybodaeth ynglŷn ag amserau'r bysiau a'r arosfannau priodol oddi wrth yr Adran honno. Cynghorir disgyblion i fod wrth yr arosfan priodol bum munud cyn yr amser swyddogol.

- Os digwydd i ddisgybl golli'i fws ar ddiwedd y dydd, dylid mynd yn union i Swyddfa'r ysgol ac nid i unman arall.
- Rhaid i ddisgybl gario'i docyn bws bob dydd er mwyn dangos i'r gyrrwr.
- Yn ôl rheolau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, gall disgybl sy'n camymddwyn ar fws ysgol golli'i hawl i gludiant rhad ac am ddim.
- Gellid cael copi o lyfryn yr Awdurdod Addysg Cludiant ar Fysiau Ysgol o swyddfa'r ysgol.


# CINIO YSGOL

Darperir cinio iach a maethlon ganol dydd ym Mwyty'r Giedd ac anogir pob disgybl i fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Mae gan yr ysgol bolisi o fwyta'n iach ac o hybu iechyd. Arlwyir ciniawau ar system caffeteria ac mae gan ddisgyblion ddewis fwydlen 'bwyta'n iach'. Telir yn ddyddiol gan y disgyblion am y prydau a ddewisir. Mae £2.90 y dydd yn talu am bryd (gosodedig) digonol, er y medr disgyblion dalu llai neu fwy na'r swm hwn, yn ôl yr hyn a ddewisant. Mae dewis eang o fyrbrydau i'w gael hefyd. Caniateir i ddisgyblion ddod â brechdanau o gartref i'w bwyta yn ystod yr awr ginio a neilltuir lle ar eu cyfer yn ystod yr awr ginio. Mae modd i ddisgyblion brynu diod (oer neu gynnes) ynghyd â thost a byrbrydau iachus eraill o 8.15am ymlaen ac amser egwyl.

## CINIO RHAD

Mae ffurflenni ar gael ar safwe pontio'r Ysgol.






# PARENT PAY

Mae'r system yn golygu nad oes rhaid i fyfyrwyr a staff dalu am brydau ysgol gydag arian parod mwyach. Yn hytrach, maent yn prynu eu prydau a byrbrydau drwy ddefnyddio cod biometrig bys neu gerdyn adnabod personol wrth y til! Mae'r system hefyd yn lleihau ciwiau yn ystod amser cinio ac yn darparu prydau ysgol am ddim yn ddienw i ddisgyblion.

Byddwch yn gallu rhoi arian ar gyfrif eich plentyn ar lein gan ddefnyddio carden debit neu credit

Er mwyn gallu defnyddio'r system rhaid cael llythyr caniatâd biometreg.

# GWISG, ADNODDAU AC OFFER

## GWISG YSGOL

Rhaid i'r holl ddisgyblion wisgo dillad swyddogol yr ysgol. Dylai enw'r plentyn fod ar bob dilledyn. Gofynnir am gymorth rhieni er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol lawn a chywir.

**Lliwiau'r Ysgol:** Glas Brenhinol, Gwyrdd Emrallt a Du

## BECHGYN

### GWISG GAEAF

Siwmper: Glas brenhinol, swyddogol ('Jerzees') gyda gwddf 'V'â logo'r ysgol arni.

Trowsus: Du, plaen. Dim Jîns.

Tei: Gwyrdd a glas

Crys: Glas golau plaen, cotwm, llewys hir

Sanau: Du/Llwyd

Esgidiau: Du. Dim trainers.

Cot: Cot ddu blaen

### GWISG TYMOR YR HAF

Crys polo: Swyddogol, glas golau gyda bathodyn yr ysgol. Dewis i wisgo byriau chwaraeon swyddogol yr ysgol



## MERCHED

### GWISG GAEAF

Siwmper: Glas brenhinol, swyddogol ('Jerzees') gyda gwddf 'V'â logo'r ysgol arni.

Trowsus: Du, plaen, coes syth. Dim Jîns, dim crops, dim addurniadau h.y dim trwosus ffasiwn.

Sgert: Du, plaen. Dim mwy na 5cm (2") uwch y ben-glin. Ni chaniateir sgert 'ffasiwn'.

Tei: Gwyrdd a glas.

Blows: Glas golau plaen, cotwm, llewys hir (ni chaniateir blows 'ffasiwn').

Sanau/teits: Du.

Esgidiau: Du, sodlau dim mwy na 4cm. Dim trainers.

Cot: Cot ddu blaen.

### GWISG TYMOR YR HAF

Crys polo: Swyddogol, glas golau gyda bathodyn yr Ysgol.

# DILLAD CHWARAEON

## MERCHED

### DILLAD CHWARAEON I'R MERCHED

**Yn y gampfa :**

- Top addysg gorfforol (merched)
- Byrion (chwaraeon glas tywyll neu ddu
- Trainers

**Ar y cae**

- Top addysg gorfforol (merched)
- Sgert, byrion chwaraeon swyddogol yr ysgol neu 'sgort' hoci las tywyll
- Sanau glas tywyll gyda logo'r ysgol
- Tracwisg ddu neu las (mewn tywydd oer)
- Emrallt a Du

## BECHGYN

### DILLAD CHWARAEON I'R BECHGYN

**Yn y gampfa**

- Top addysg gorfforol (bechgyn)
- Byrion glas tywyll swyddogol yr ysgol
- Trainers

**Ar y cae**

- Crys rygbi,
- Byrion rygbi glas tywyll
- Esgidiau rygbi
- Sanau glas tywyll â bathodyn yr ysgol arnynt

*Bydd y byrion chwaraeon hefyd yn ffurfio rhan o wisg haf yr ysgol.

## NODWCH, OS GWELWCH YN DDA :

### GWALLT


Rhaid i ddisgyblion fod â steil gwallt addas a derbyniol ar bob adeg. Ni chaniateir toriad na lliw eithafol. Oherwydd diogelwch, cynghorir disgyblion i glymu gwallt hir yn ôl oddi ar eu hwynebau.

### CLUST-DLYSAU AC ADDURNIADAU CORFF

Caniateir un styden ym mhob clust. Ni chaniateir addurniadau e.e. stydiau neu ddarnau o fetel mewn unrhyw ran arall o'r corff megis y wyneb. Gofynnir i ddisgyblion i dynnu'r fath addurniadau.

### TAPIAU ENWAU

Fe'ch cynghorir i wnïo enw ar bob dilledyn.




# PRYNU'R WISG

## SIOP GWISG YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA

**www.sportec.co.uk/contact-us**

Mae cwmni lleol Sportec yn Castell-Nedd yn gwerthu holl eitemau arbenigol gwisg ysgol a chwaraeon. Gellir prynu ar-lein, neu alw i mewn i'w siop cyfleus yn Uned 5, Stad Ddiwydianol, Abbey Road Industrial Estate, Castell Nedd, SA10 7DN.

Gellir yn ogystal gael y wisg wedi'i anfon i'r ysgol (gwasanaeth casglu am ddim) neu gael y dillad wedi'i anfon i'r cartref (cost ychwanegol).

Bydd opsiwn o gael enw eich plentyn wedi ei wnio i ochr dde y siwmper.

## LOGO SWYDDOGOL YR YSGOL

YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA

Gwefan Sportec

# GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae gan yr ysgol fywyd cymdeithasol cyfoethog ac amrywiol sy'n ategu'r cwricwlwm academaidd. Mae'r cymdeithasau canlynol yn cwrdd yn rheolaidd:

Yr Urdd, Gwyddonol, Mathemategol, Daearyddiaeth, Hanes, Drama, Dadlau, Siarad Cyhoeddus, Cerddorfa, Corawl, Cynhyrchiad Ysgol Gyfan, Cynlluniau  Menter yr Ifanc, Gwobr Dug Caeredin, gweithgareddau Menter Iaith CNPT, Atal Troseddu, cystadlaethau amrywiol.

Ceir rhaglen lawn o weithgareddau chwaraeon a chlybiau ffocws. Cynhelir hefyd Glwb Gwaith Cartref a Chlybiau Gwaith Cwrs i hybu cynnydd ym mhynciau'r cwricwlwm.

Ymhlith y chwaraeon a drefnir gan yr adran Addysg Gorfforol y mae rygbi, hoci, criced, pêl-rwyd, traws-gwlad, athletau, pêl- droed, gymnasteg, pêl- fasged, pêl-fâs a badminton.

Anogir  disgyblion i ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarperir yn ganolog gan yr A.A.Ll. yn y celfyddydau (awduron a chrefftwyr preswyl), addysg yr amgylchedd a chwaraeon.

Mae gan yr ysgol ystafell gefnogaeth sef 'Stafell Stwnsh' lle mae disgyblion yn medru cael cyngor gan weithwyr ieuenctid a swyddogion cynhwysiant arbenigol amser cinio ac egwyl. Trefnir gweithgareddau amrywiol a chynnigir cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu mewn awyrgylch anffurfiol.






# BLWYDDYN ACADEMAIDD 2024-2025

| TYMOR | DECHRAU'R TYMOR | GWYLIAU HANNER TYMOR | | DIWEDD TYMOR |
|---|---|---|---|---|
| | | DECHRAU | DIWEDD | |
| Hydref 2024 | Dydd Llun 2 Medi (Diwrnod HMS) | Dydd Llun 28 Hydref | Dydd Gwener 1 Tachwedd | Dydd Gwener 20 Rhagfyr |
| Gwanwyn 2025 | Dydd Llun 6 Ionawr | Dydd Llun 24 Chwefror | Dydd Gwener 28 Chwefror | Dydd Gwener 14 Ebrill |
| Haf 2025 | Dydd Llun 28 Ebrill | Dydd Llun 26 Mai | Dydd Gwener 30 Mai | Dydd Llun 21 Gorffennaf |

# DYDDIADAU PWYSIG

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD |
|---|---|
| Medi 3 | Dechrau Tymor Bl7 |
| Hydref 24 | Noson Rieni gyda thiwtoriaid Bl 7 |
| Tachwedd 28 | Ffair Nadolig |
| Rhagfyr 19 | Adroddiad Interim |
| Mai 22 | Noson Rieni gydag athrawon pwnc |
| Gorffennaf 11 | Adroddiad llawn |